

Defnyddwyr y Deyrnas Unedig yn lleisio eu barn am fwyd sydd wedi bod yn destun addasu genomau

Gofynnodd prosiect ymchwil yr ASB am adborth gan y cyhoedd o ran eu canfyddiadau o fwyd sydd wedi bod yn destun addasu genomau, a'i labelu posib yn y dyfodol.

Amlygodd yr ymchwil fod ymwybyddiaeth isel ymysg cyfranogwyr am addasu genomau a'r gwahaniaeth rhyngddo â GM, a'r angen i addysgu'r cyhoedd am dechnoleg addasu genomau yng nghyswllt ei defnydd mewn bwyd.

Teimlodd rhai cyfranogwyr y byddai rheoleiddio a labelu tryloyw o ran bwydydd sydd wedi bod yn destun addasu genomau yn bwysig, pe baent yn cyrraedd marchnad y Deyrnas Unedig (DU).

Addasu genomau yw'r term sy'n cael ei roi ar amrywiaeth eang o dechnegau a ddefnyddir i newid DNA organebau, gan gynnwys planhigion ac anifeiliaid, sef ychwanegu, dileu, neu amnewid darnau DNA. Fodd bynnag, canolbwyntiodd yr ymchwil hon ar un is-set benodol o fwydydd sydd wedi bod yn destun addasu genomau, lle gallai canlyniadau fel arall fod wedi eu cynhyrchu trwy ddefnyddio bridio traddodiadol.

Mae defnyddio technolegau addasu genomau o'r fath yn golygu y gellir gwneud newidiadau yn gyflymach ac yn fwy manwl gywir. Mae ei ddefnyddiau posib yn cynnwys gwneud newidiadau bychain i DNA i wella nodweddion organeb, fel cynnwys maethol cnydau, neu eu gallu i wrthsefyll afiechyd.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fwydydd sy'n destun addasu genomau ar werth yn y DU, er bod rhai ar gael mewn rhannau eraill o'r byd, ac mae addasu genomau yn dechnoleg sy'n tyfu'n gyflym yn y system fwyd fyd-eang.

Ym mis Ionawr 2021, lansiodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ymgynghoriad ar ddyfodol technolegau genetig yn Lloegr, gan gynnwys gwahodd ymatebion i gynnig i dynnu rheoleiddio addasu genomau o'r ehangach ar GM. Disgwylir i'r ymatebion gael eu cyhoeddi'n fuan.

Roedd yr adroddiad a ryddhawyd heddiw, a gynhaliwyd gan Ipsos MORI, yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon mewn gweithdai a gweithgareddau ar-lein, wedi ei ddilyn gan arolwg cynrychioliadol o dros 2,000 o ddefnyddwyr.

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE), mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban bellach yn gyfrifol am yr holl asesiadau diogelwch ar fwyd a bwyd anifeiliaid GM, yn ogystal â'r rheolau labelu canlynol.

Meddai'r Athro Robin May, Prif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB:

“Rydym yn croesawu canfyddiadau'r prosiect ymchwil defnyddwyr pwysig hwn, a fydd yn helpu'r ASB wrth i ni barhau i adeiladu sylfaen dystiolaeth i lywio polisi bwyd, cyngor diogelwch, a chyngor labelu yn y dyfodol yn y maes hwn sy'n datblygu'n

gyflym.

“Ein blaenoriaeth yw cynrychioli a diogelu defnyddwyr, ac felly mae'n hanfodol ein bod yn parhau i weithio'n agos gyda'r cyhoedd, yn ogystal â chychwyn ar fentrau ymchwil blaengar eraill, i sicrhau ein bod yn defnyddio'r dystiolaeth gadarnaf er mwyn gweithredu er budd defnyddwyr.

“Mae'r DU yn ymfalchïo ei bod â'r safonau uchaf o ran diogelwch bwyd, ac mae rheolaethau llym ar gnydau, hadau a bwyd GM y byddwn ni yn yr ASB yn parhau i'w cymhwyso wrth symud ymlaen. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu ein dull rheoleiddio yn y maes hwn yn y dyfodol mewn ymateb i'r safbwyntiau hyn a chyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad a arweiniwyd gan DEFRA.”

Yn ddiweddarach yr haf hwn, bydd yr ASB hefyd yn cyhoeddi adroddiad sy'n asesu gwahanol ddulliau rheoleiddio rhyngwladol ar gyfer bwydydd GM a bwydydd newydd.

I gael rhagor o wybodaeth am addasu genomau, gan gynnwys fideo 'FSA Explains', ewch i'n [tudalen we bwrpasol ar gyfer addasu genomau](#).

Mae'r [prosiect ymchwil defnyddwyr llawn](#) ar gael ar ein tudalennau ymchwil (Saesneg yn unig).